Cymunedau ac Asesiadau Safle

Yng Nghaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad Yr Haf , ac yn ardal y Cotswolds, bu Awdurdodau Lleol a Chynghorau Plwyf yn cydweithio i nodi safleoedd i gyflenwi gofynion am dai newydd.

Fel rhan o'r symudiad tuag at fwy o fewnbwn gan gymunedau i Gynllunio ers y Localism Act 2011 yn Lloegr, mae Cyngor Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad Yr Haf a Chyngor Dosbarth Cotswolds wedi gweithio'n agosach gyda'u cymunedau lleol wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol, yn benodol i asesu safleoedd ar gyfer datblygiadau o dai.

Cynhyrchodd y ddau Gyngor asesiadau safle trylwyr, proffesiynol hawdd-eu-defnyddio y gallai cynrychiolwyr cymunedol lleol eu defnyddio i asesu pob safle posibl a allai gyflenwi tai yn yr ardal.

Yng Nghaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad Yr Haf, aseswyd safleoedd posibl gan nifer wych – 90%- o gynghorau Tref neu Blwyf gan groesawu'r cyfle i "gyfrannu gwybodaeth a phrofiad lleol cyn bod unrhyw geisiadau cynllunio yn eu lle".

Mae'r deunyddiau asesu safle manwl, a gynhyrchwyd gan gynrychiolwyr y gymuned, ynghyd â gwybodaeth dechnegol arall, yn llunio rhan o'r deunydd mae Swyddogion y Cyngor yn eu defnyddio i asesu pob cyflwyniad safle penodol ac i ddosrannu safleoedd ar gyfer tai.

Darganfyddwch fwy am y B&NES Council Placemaking Plan yma.